OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif. 3416 (Cy. 347)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Traveller's Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ionawr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar y darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Ionawr 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Traveller's Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

**2.** —(1).Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 5 Ionawr 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A40 yn Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Atal**

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A48 (Cylchfan Pensarn, Caerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2009(3) drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2014

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2009/3420/W302

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain Heol Llansteffan.

### ATODLEN 2
### Terfynau cyflymder 40 mya a 10 mya dros dro, a dim goddiweddyd.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 2km i'r gorllewin o Gylchfan Pont Lesneven.

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Lesneven.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2km i'r gorllewin o Gylchfan Pont Lesneven i'r arwyddion presennol sy'n dangos diwedd y parth 40 mya ar y ffordd sy'n arwain at Gylchfan Pensarn.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain Heol Llansteffan o'r arwyddion sy'n dangos diwedd y parth terfyn cyflymder cenedlaethol, rhyw 75 metr o'i chyffordd â'r B4312, Heol Llansteffan, i'w chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain Traveller's Rest o ddechrau'r llain galed 1 metr i bwynt wrth ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain Heol Llansteffan o'i chyffordd â'r B4312, Heol Llansteffan i'r arwyddion sy'n dangos diwedd y parth terfyn cyflymder cenedlaethol, rhyw 75 metr o'r gyffordd honno.